At ddefnydd swyddogol yn unig

Cais i Gofrestru Gwasanaeth Bws

Bydd y daflen ***"Guide to local bus service registration [PSV353A]"*** o gymorth ichi wrth lenwi'r ffurflen hon. Os cewch ragor o anawsterau, cysylltwch â'r tîm trwyddedu yn eich Swyddfa Ardal Drafnidiaeth Leol neu ffoniwch Rif Ymholiadau Cenedlaethol VOSA 0870 60 60 440.
Lle bo'r rheolau'n caniatáu i'r Comisiynydd Traffig dderbyn llai na 56 diwrnod o rybudd o'r cofrestriad hwn, dylech hefyd lenwi ffurflen PSV350A a'i hanfon gyda'r ffurflen hon.
Os yw'r gwasanaeth yn cynnwys arosfannau yn ardal Llundain Fwyaf, bydd angen ichi hefyd gael hawlen gwasanaeth Llundain oddi wrth Transport for London. Defnyddiwch ffurflen PSV381 yn hytrach na'r ffurflen hon.
Rhaid ichi anfon y ffi briodol gyda'r ffurflen hon (gweler y rhestr ffioedd ar wahân).

Eich Manylion

Ticiwch y blychau mewn PRIF LYTHRENNAU

1. Enw, sydd ar eich trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus neu hawlen bws cymunedol.
2. Enw masnachu *(Os yw'n wahanol i'r uchod)*
3. Cyfeiriad ar gyfer gohebu.

Cod Post

Cyfeiriad e-bost

4. Rhif ffôn yn ystod y dydd.
5. Rhif(au) trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus neu rif(au) hawlen bws cymunedol
6. Ym mhle mae'ch gwasanaeth yn dechrau?

Mynd i

7. Ym mhle mae'ch gwasanaeth yn gorffen?

Drwy

8. Y prif fannau sy'n cael eu gwasanaethu

Rhif

9. Rhif y llwybr *(os oes rhif)* gan gynnwys unrhyw lythrennau (e.e. 17A, 17B)

10. Pa fath o wasanaeth fyddwch chi'n ei redeg?

- Gwasanaeth Arosfannau Arferol
- Gwasanaeth Arosfannau Cyfyngedig
- Galw a theithio
- Arall *(rhowch fanylion os gwelwch yn dda)*
- Gwibdaith neu daith bleser (nid oes angen ichi ateb Cwestiynau 13 i 19)
- Ysgolion neu waith

11. Beth yw'r dyddiad dechrau arfaethedig?
12. Ar ba ddiwrnodau ac amseroedd y bydd y gwasanaeth yn rhedeg?

13. A fydd angen unrhyw symudiadau troi neu facio ar y llwybr?

Bydd Na Fydd
Os Bydd, rhowch fanylion ar y **daflen disgrifiad o'r llwybr.**

14. A fydd y gwasanaeth yn defnyddio pob arhosfan bysiau gydnabyddedig sydd ar y llwybr?
Bydd Na Fydd
Os Na fydd, rhowch fanylion am yr arosfannau a ddefnyddir, gan ddefnyddio'r **daflen disgrifiad o'r llwybr.**

15. A fydd angen unrhyw arosfannau bysiau newydd ar gyfer y gwasanaeth?
Bydd Na Fydd
Os BYDD, rhowch fanylion ar y **daflen disgrifiad o'r llwybr.**

16. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth heb arosfannau penodol *(galw a theithio ac ati)*?
Bydd Na Fydd
Os BYDD, rhowch fanylion am y trefniadau aros, gan ddefnyddio'r **daflen disgrifiad o'r llwybr.**

17. Ym mha Ardaloedd Trafnidiaeth y gweithredir y gwasanaeth? *(nodir cyfeiriadau'r ardaloedd yn atodiad 1 yn y canllaw)*.

18. A yw'ch gwasanaeth yn derbyn cymorthdaliadau gan awdurdod lleol neu awdurdod gweithredol trafnidiaeth i deithwyr?
Ydyw Nac ydyw Yn rhannol

19. Rhowch enw(au)'r awdurdod neu'r awdurdod gweithredol trafnidiaeth i deithwyr sy'n darparu'r cymhorthdal.

Defnyddiwch y daflen disgrifiad o'r llwybr drosodd i roi manylion yn ôl y galw:

- Rhowch ddisgrifiad llawn o'r llwybr, gan roi digon o fanylion i ddangos yr holl ffyrdd a ddefnyddir ganddo. Os bydd y gwasanaeth yn gwyro oddi ar y llwybr hwn ar gais, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

- Dangoswch yn glir unrhyw amrywiadau i'r llwybr, ac eithrio darnau byr, y bwriedwch eu cynnwys yn eich gwasanaeth. Dylai o leiaf 50% o'r amrywiadau fod yr un fath â'r prif lwybr. Fel arall, gofynnwch i'r Swyddfa Ardal Drafnidiaeth a ddylech eu cofrestru ar wahân.

- Rhowch fanylion am unrhyw fannau amseru, mannau aros a mannau terfyn ar y llwybr lle byddwch yn aros am fwy o amser nag sydd ei angen i godi neu ollwng teithwyr.

A fyddech gystal ag anfon y canlynol:

- Map (graddfa 1:50,000) yn nodi'n glir y ffordd fydd yn cael ei defnyddio, gan gynnwys amrywiadau i'r llwybr.

- Copi o'ch amserlen lawn *(rhaid iddi ddangos y diwrnodau a'r amseroedd rydych yn gweithredu, ac eithriadau fel gwyliau cyhoeddus)*. Os ydych yn dymuno newid yr

amseroedd **rhaid ichi wneud cais am gael amrywio'r cofrestriad.**

- Ffurflen PSV 350A os yw'r dyddiad a roddir yn C11 yn llai na 56 diwrnod ar ôl y dyddiad rydych yn disgwyl y bydd y cais yn cael ei dderbyn

Nodiadau
Cyfnod rhybudd byrrach – Fel arfer, ni allwch ddechrau'n gynharach na 56 diwrnod o'r dyddiad pan fo'r Comisiynydd Traffig yn derbyn y cofrestriad. Mae Atodiad 3 i'r canllaw yn egluro'r achosion prin hynny pan dderbynnir cyfnod rhybudd byrrach. Pan fo'r achosion hyn yn berthnasol rhaid ichi hefyd lenwi ffurflen PSV 350A a'i hanfon gyda'r ffurflen hon.

Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (a arferai gael ei alw'n Ad-daliad Treth Danwydd) – Gallech fod yn gymwys i dderbyn grant sy'n daladwy i weithredwyr gwasanaethau lleol cofrestredig ar yr amod nad yw'r gwasanaethau'n wibdeithiau neu deithiau pleser. Mae amodau penodol yn berthnasol, a cheir manylion amdanynt yn nhaflen PSV 360.

Methu â darparu'r gwasanaeth cofrestredig neu fethu â chydymffurfio â deddfwriaeth neu dorri deddfwriaeth – Mae gan y Comisiynydd Traffig hawl i bennu cosb, sy'n addas yn ei farn ef i weithredwr, os yw'n credu bod y gweithredwr wedi methu â darparu gwasanaeth yn unol â'r cofrestriad; wedi gweithredu'n groes i Adran 6 o Ddeddf 1985 neu wedi gweithredu'n groes i ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Ni fydd unrhyw gosb a bennir yn fwy na:
• £550; neu
• swm arall a bennir drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn achos Lloegr) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yn achos Cymru) wedi ei luosi â chyfanswm y cerbydau y mae'r gweithredwr wedi ei drwyddedu i'w defnyddio dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir ganddo/ganddi.

Rhaid ichi anfon copi o'r ffurflen hon gyda'r dogfennau ategol at bob un o'r cynghorau sir, awdurdodau unedol, awdurdodau gweithredol trafnidiaeth i deithwyr a chynghorau rhanbarthau neu ynysoedd y bydd y gwasanaeth yn gweithredu ynddynt. Mae peidio â gwneud hyn yn drosedd.

Yr wyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon a dogfennau ategol at yr awdurdodau a ganlyn:

Datganiad

Yr wyf yn datgan, hyd y gwn i, bod y wybodaeth a roddais yn wir ac yn gywir.

Arwyddwyd Dyddiad

Enw
(mewn PRIF LYTHRENNAU)

Swydd yn y busnes

Dychwelwch y ffurflen hon yn awr i swyddfa'r Ardal Drafnidiaeth lle mae'ch gwasanaeth yn dechrau.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi amgáu'r canlynol:

- amserlen lawn;
- map neu gynllun yn dangos y ffyrdd sydd i'w defnyddio;
- taflen(ni) disgrifiad o'r llwybr, os defnyddiwyd taflen(ni) ychwanegol.
- ffurflen PSV350A, os oes angen;
- y ffi briodol – gweler y rhestr ffioedd ar wahân (yn daladwy i "Vehicle and Operator Services Agency");

Disgrifiad o'r llwybr (Defnyddiwch inc du os gwelwch yn dda)

Rhowch y manylion a ganlyn os gwelwch yn dda:

At ddefnydd swyddogol yn unig

Gwibdeithiau neu Deithiau Pleser

1. amlinelliad o'r llwybr gan nodi'r mannau codi;
2. y cyfnodau yn ystod y flwyddyn pan fydd y gwasanaeth yn cael ei weithredu; a
3. uchafswm y cerbydau sy'n gadael mewn un diwrnod;

Gwasanaethau Eraill

1. disgrifiad o'r llwybr;
2. unrhyw amrywiadau i'r llwybr;
3. amrywiadau a wneir ar gais;
4. mannau amseru/mannau terfyn/mannau aros;
5. symudiadau bacio neu droi;
6. arosfannau a ddefnyddir ar wasanaethau arosfannau cyfyngedig; a
7. trefniadau aros ar gyfer gwasanaethau (neu ran o wasanaeth) nad oes ganddynt arosfannau penodol e.e. "Galw a Theithio".

Ewch ymlaen ar dudalen ar wahân os oes angen.

Cyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. © Hawlfraint y Goron 1998.
Ailargraffwyd yn y DU Medi 2004 (PPU2067/AY) ar bapur a wnaed o wastraff defnyddwyr (100%). Cod y cynnyrch PSV 350 (12/98)